# Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

**2021 dsc 3**

*Cyffredinol*

**17 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr "contract safonol" yw—

(i) contract safonol cyfnodol o dan Ddeddf 2016;

(ii) contract safonol cyfnod penodol o dan y Ddeddf honno,

a gweler adran 8 o Ddeddf 2016 ynghylch hynny;

(b) ystyr "Deddf 2016" yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 mewn grym ar 8.4.2021, gweler **a. 19(1)**

VALID FROM 07/06/2021

**18 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen 6 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau neu ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 ac i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (dccc 2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 18 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

## 19 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon, adran 15 ac adrannau 17 a 20 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw paragraff 28 o Atodlen 6 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ddau fis ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;

(b) pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 19 mewn grym ar 8.4.2021, gweler **a. 19(1)**

## 20 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 20 mewn grym ar 8.4.2021, gweler **a. 19(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/04/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cyffredinol.